



ATHROFA **PADARN SANT**
ST **PADARN'S** INSTITUTE



Diwrnodau Gwrando Athrofa Padarn Sant

Adroddiad Ymchwil



"Mae yna fath o wrando â hanner clust sy'n rhagdybio ein bod yn gwybod eisoes beth sydd gan y person arall i'w ddweud. Dyma wrando diamynedd, disylw, sy'n casáu'r brawd ac ond yn aros am gyfle i siarad, oblegid yn cael gwared ar y person arall. Nid yw hyn yn cyflawni'n rhwymedigaeth, a'r hyn sy'n sicr yw bod ein hagwedd at ein brawd yma yn adlewyrchu'n perthynas â Duw ... Mae Cristnogion wedi anghofio bod gweinidogaeth gwrando wedi'i rhoi iddynt ganddo Ef, y gwrandawr mawr ei hun y dylent rannu yn ei waith."

Dietrich Bonhoeffer – Life Together

Cynnwys

1. Cyflwyniad: Diwrnodau Gwrando	3
2. Data	4
3. Sut mae'r data yn cael ei ddefnyddio?	5
5. Themâu	6
Thema 1: Gweledigaeth	6
Thema 2: Gweddi a Ffurfiant Ysbrydol	8
Thema 3: Rôl ac Adolygiad	11
Thema 4: Tîmau a Chydgymorth	12
Thema 5: Defnydd Amser	14
Thema 6: Y Gymraeg a Threftadaeth	16
Thema 7: Cyllid	20
Thema 8: Heriau a phwysau gwaith	21
Thema 9: Doniau a Phrofiad	24
Thema 10: Adnoddau ar gyfer Gweinidogaeth	26
Thema 11: Eiddo	30
Thema 12: Adlewyrchu ar Athrofa Padarn Sant	34
Thema 13: Diwylliant	36
6. Crynodeb: Un Peth	37
7. Casgliad	38

1. Cyflwyniad: Diwrnodau Gwrando

Pa mor aml fyddwn ni'n creu cyfle yn ein bywydau prysur i oedi'n fwriadol, a myfyrio ar ein profiadau? Neu pryd fyddwn ni'n creu lle i wirioneddol wrando ar Dduw, neu ar ein gilydd?

Yn 2018, estynnodd Athrofa Padarn Sant wahoddiad i ddarllenwyr, bugeiliaid, arloeswyr, efengylwyr a gweithwyr plant/ieuenctid trwyddedig yn ogystal â'r holl glerigwyr trwyddedig, i un o bedwar ar hugain o 'Ddiwrnodau Gwrando' mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru.


Dechreuodd pob diwrnod a gorffennodd pob diwrnod gyda chydaddoliad byr. Yn dilyn cyfnod estynedig o dawelwch cafwyd cyfle i ateb cyfres o 'gwestiynau gwrando' (ar liniadur, ar bapur neu ar ffurf cyfweliad) cyn cinio a sgwrs. Pedwaredd elfen y diwrnod oedd gweithdy dewisol oedd yn anelu at ddyfnhau ein harferion gwrando.

Mae'r ymatebwyr yn yr astudiaeth hon yn ystod eang o bobl ymroddedig a dawnus sy'n gwasanaethu fel gweinidogion trwyddedig yn yr Eglwys yng Nghymru heddiw. Y gobaith yw y bydd eu cyfraniad yn annog bobl eraill, ac yn adnodd gwerthfawr i'r Athrofa ac i'r eglwys yn ehangach.

Hoffem ddiolch o galon i bawb a gymerodd ran yn y Diwrnodau Gwrando, ac yn wir yn yr ymgynghoriad ehangach ar Ddatblygu'r Weinidogaeth.

Mae'r sylwebaeth yn yr adroddiad mor gryno as sy'n bosib, gan ein bod yn gobeithio y bydd y data ei hun yn ysbrydoli gweddi, sgwrs ac ymgysylltiad.

2. Data



Rhywedd	Total	%
Gwryw	82	48.8
Benyw	81	48.2
Well pedio dweud	5	3
	168	100

Inwcm	Total	%
Cyflogedig	64	38.1
Digyflog / Hunan gynhaliol	74	44
Edi cyflogi gan yr Eglwys yng Nghymru	14	8.3
Arall	16	9.5
	168	100

Cafodd dyluniad yr astudiaeth, gan gynnwys y cwestiynau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data Diwrnodau Gwrando gymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol Caerdydd. Priodweddau nodedig y data a gasglwyd oedd:

- 1) **Graddfa:** ymatebodd 168 o ymatebwyr i set o 67 o gwestiynau gwahanol yn Gymraeg neu Saesneg a'r rheiny'n eu gwahodd i fyfrio ar ffynnu yn y weinidogaeth, doniau a phrofiad, yr anghenion o ran adnoddau a demograffeg. Gan fod yna amrywiaeth o fathau o gwestiynau, gan gynnwys ymatebion ar ffurf testun, mae hyn yn golygu bod y set ddata lawn yn un helaeth.
- 2) **Cwmpas:** Dyluniwyd y Cwestiynau Gwrando mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr yn yr Eglwys yng Nghymru yn ogystal â diwinyddion ymarferol a thimau ymchwil mewn manau eraill. Cawsant eu treialu yn ystod Hydref 2017 a'u diwygio wedyn. Roedd y cwestiynau'n amrywiol o ran eu fformat – yn amrywio o aml-ddewis neu atebion un gair i wahoddiadau i rannu syniadau a gwybodaeth mewn perthynas â meysydd penodol lle ceir her a chyfle i'r eglwys heddiw.
- 3) **Amrywiaeth:** Daeth y rhai a fu'n cymryd rhan o bob un o'r chwe Esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, ac maen nhw'n cynrychioli ystod eang o rolau fel gweinidogion, lleyg ac wedi'u hordeinio. Hyd y gwyddon ni, mae hynny'n golygu ei bod yn astudiaeth unigryw o ran ymchwilio i'r weinidogaeth. Mae ei dyluniad hefyd yn anelu at gadarnhau ac atgyfnerthu ymrwymiad yr Eglwys yng Nghymru i hybu lleygwyr a phobl ordeiniedig a chadarnhau gweinidogaethau holl bobl Dduw.

3. Sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio?

Mae ymateb i fwy na 60 o 'Gwestiynau Gwrando' am realiti'n gweinigogaeth a bod yn onest ac yn agored yn ein hymwneud yn dasg ymestynnol. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn gwneud hynny er budd holl weinidogion yr Eglwys yng Nghymru ac nid yn bennaf fel math o ddatblygu proffesiynol personol. O gychwyn yr astudiaeth, buom yn pwysleisio;

- i. Ein hymrwymiad i rannu'r canfyddiadau
- ii. Ein hymrwymiad i beidio â defnyddio'r data i greu rhestru hir o bethau i'w gwneud, nac i weinidogion unigol nac i'r Esgobaethau. Potensial y dull hwn yn ein barn ni yw myfyrio gyda'n gilydd ar yr hyn sydd wedi'i rannu.

Ers cynnal y Diwrnodau Gwrando, rydym wedi adlewyrchu ar y data mewn diwrnodau seminar gyda chyfranogwyr y Diwrnodau Gwrando a grwpiau eraill o weinidogion, gan ofyn y cwestiwn syml: 'Sut gallwn ni fel cymuned o weinidogion ymateb?'

Mae data'r Diwrnodau Gwrando wedi cynhyrchu llawer o syniadau a fydd yn cynnig adnodd pwysig i helpu i lunio a llywio'n darpariaeth ar gyfer datblygu'r weinigogaeth yn y dyfodol.

4. Themâu

Mae pob adran o'r adroddiad hwn yn ymdrin ag un thema yn y Cwestiynau Gwrando. Ar frig y tudalen fe welwch y cwestiynau a ofynnwyd ac a oedd yn ymwneud â'r thema. O dan hynny, cyflwynir trosolwg o'r ymatebion a roddwyd.

Thema 1: Gweledigaeth

Sut byddech chi'n crynhoi eich gweledigaeth ar gyfer gweinidogaeth?
Oes adnodd neu ddarn penodol o'r ysgrythur sy'n eich ysbrydoli?
Oes awdur neu ddiwinydd Cristnogol sy'n eich ysbrydoli?
Oes gennyh nodau neu amcanion penodol i'ch gweinidogaeth?
Ar beth rydych chi'n gobeithio canolbwyntio'ch gweinidogaeth yn 2018?

Sut byddech chi'n crynhoi eich gweledigaeth ar gyfer gweinidogaeth?

Gellir grwpio'r ymatebion fel a ganlyn:

Mynd yn Ddyfnach: Datganiadau o weledigaeth lle mae canlyniadau gweinidogaeth yn deillio o fynd yn ddyfnach i berthynas â Duw.	Adeiladu: Datganiadau lle mae'r gweinidog yn mynegi gweledigaeth ar gyfer adeiladu'r eglwys.	Estyn Allan: Datganiadau lle mae'r gweinidog yn mynegi ymrwymiad i genhadu ac efengylu y tu hwnt i aelodaeth bresennol yrr eglwys.	Arall: Geiriau unigol neu grwpiau o eiriau sy'n debycach i deimlad neu set o werthoedd y gall gweledigaeth ddeillio ohonyn nhw. Hefyd, ymatebion greddfol sy'n datgelu rhywbeth o frwydrau presennol yr unigolyn yn y weinidogaeth.
	Adeiladu ac Estyn Allan: Cyfuniad o'r uchod.		

Gellir defnyddio'r mynegiant o weledigaeth bersonol, serch pa mor betrus neu amrwd, fel sail i hybu sgwrs o annogaeth, neu i helpu i gynllunio adnoddau penodol. Os oes gennym grŵp sydd â galwad benodol i efengylu er enghraifft, yna gallwn ystyried y ffordd orau i helpu pobl wrth ddatblygu. Os gwelwn fod safbwynt penodol yn cael ei dangynrychioli, efallai y byddwn am edrych ar sut y gallwn roi cyfle i'r rhai yn y grŵp bach hwn gyfathrebu a chael eu hannog yn eu galwad.

Lleisiau (Enghreifftiau):

Mynd yn Ddyfnach:

"Fy ngweledigaeth i ar gyfer y weinidogaeth yw bod yn offeiriad sy'n gweddio'n ddwfn a'i alwedigaeth yn cael ei llunio gan y cyfan sy'n llifo o'r cyfarfyddiad hwnnw."

Adeiladu:

"Fy ngweledigaeth i yw bod y clerigwyr a'r llyegwyr yn cydweithio er mwyn gallu bod y bobl mae Duw wedi ein galw ni i fod."

Estyn Allan:

"Fy ngweledigaeth i yw gwneud Iesu'n adnabyddus."

Adeiladu ac Estyn Allan:

"Fy ngweledigaeth i yw dod â phobl i bresenoldeb Duw a mynd allan gyda nhw fel Crist i'r byd."


Arall:

"Mae fy ngweledigaeth i yn boddi o dan alwadau gweithgareddau beunyddiol."

Oes awdur neu ddiwinydd Cristnogol sy'n eich ysbrydoli?

Mae'r wordle yn rhoi awgrym o'r enwau gododd ar fwy nag un achlysur, gyda Rowan Williams yn cael ei enwi 21 o weithiau, N.T.Wright 17, C.S Lewis 12 a Dietrich Bonhoeffer a Henri Nouwen 10 gwaith yr un.en

Cipolwg yn unig yw data o'r math hwn ond efallai ei bod yn werth nodi'r amrywiaeth o awduron a diwinyddion sy'n ysbrydoli pobl. Peth cyffrous I ni yw'r potensial I gyflwyno'r rhai sydd â gweinidogaeth mewn addysgu I amrywiaeth ehangach o ysgrifennu a llenyddiaeth ddiwinyddol Cymru.



Lleisiau:

Oes gennych nodau neu amcanion penodol i'ch gweinidogaeth?

"deall y bobl a'r cymunedau rwy'n gweithio gyda nhw."

"ffynnu a pharhau i ddysgu a datblygu."

"gweld degau o filoedd o blant a phobl ifanc yn dod i mewn i Deyrnas Dduw."

"codi bob tro rwy'n disgyn i lawr. Tyfu yn fy ymarfer myfyriol a'm gweithredu myfyriol."

"Gweithio ochr yn ochr â phobl ar incwm isel a phobl sydd dan anfantais oherwydd tloidi."

Ar beth rydych chi'n gobeithio canolbwyntio'ch gweinidogaeth yn 2018?

"arloesi: rhoi cynnig ar bethau newydd, gofyn cwestiynau, croesi ffiniau"

"gwreiddio fy hun yn well yn y Beibl a defnyddio hynny mewn ffyrdd ymarferol"

"gwrando, gwyleidd-dra ac ufudd-dod"

"ceisio trefnu a chynnal cwrs y cyfarwyddwyr ysbrydol"

"a bod yn onest rydw i eisiau bod yn llai blinedig ar ddiwedd 2018"

Un Peth y gallwn ni fel gweinidogion ei wneud yw annog ein gilydd drwy sôn am yr hyn syn ein hysbrydoli a'n cymell yn ein gweinidogaeth.

Thema 2: Gweddio a Ffuriant Ysbrydol

Ydych chi'n gweddio gydag eraill yn rheolaidd yn ystod yr wythnos (e.e. gwasanaeth dyddiol / grŵp gweddio)?

Ydych chi'n dod o hyd i amser personol i astudio'r ysgrythur yn bersonol?

Beth yw eich patrwm gweddio personol?

Ydych chi'n gwneud unrhyw waith astudio arall nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch gweinigogaeth?



Ydych chi'n mynd ar encil? Os felly, ble'r aethoch chi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Os nad ydych wedi bod ar encil, beth sy'n gwneud hyn yn anodd ichi?

Oes gennych chi gyfarwyddwr ysbrydol neu enaid cytûn

Os oes, sut daethoch i gysylltiad â nhw gyntaf?

Beth fyddai'n eich helpu i ddyfnhau'ch bywyd gweddi?



Beth yw'ch patrwm gweddio personol?

Cyfeiriodd 11% o'r ymatebwyr yn benodol at wasanaethau'r dydd a soniodd 35% arall am 'foreol weddi' neu 'hwylol weddi', neu 'foreol a hwylol weddi'. Soniodd rhai am ddefnyddio Gweddio Iesu neu Lectio Divina. Dywedodd 15% fod eu patrwm gweddio yn 'dameidiog'.

Cyfeiriodd nifer o bobl at adnoddau oedd yn ddefnyddiol iddyn nhw o ran gweddio ddyddiol:


- ap Gweddio Feunyddiol Addoli ar y Cyd
- ap Gweddio wrth Fynd
- Gwasanaeth Dyddiol Ffransisgaidd
- Gweddio Feunyddiol Cymuned Northumbria
- Y Weddi Feunyddiol Geltaidd
- Darlleniadau Beunyddiol y Jeswitiaid
- Word Live
- Gweddio Feunyddiol Cymuned Iona
- Myfyrdodau Beunyddiol Cymdeithas y Beibl
- Meicro-Gyhoeddwr Cymdeithas y Beibl

Ydych chi'n dod o hyd i amser i astudio'r ysgrythur yn bersonol?

Rhoddodd 37 o bobl ateb i'r perwyl 'Ydw, ond dim ond ar gyfer pregeth/Na, dim ond ar gyfer pregeth'.

Ydych chi'n gwneud unrhyw waith astudio arall nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch gweinidogaeth?

Dywedodd 66 o bobl 'ydw' a dywedodd 78 o bobl 'nac ydw'. Roedd y meysydd astudio'n cynnwys: Cymraeg, Cwnsela, Barddoniaeth, Paentio, Tecstilau, Ysgrifennu, Cerddoriaeth, Hanes Lleol, Ieithoedd Modern, Islam ac Egwyddorion Hedfan.



Os ydych chi wedi bod ar encil yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ble' chi?

Yng Nghymru:

Ynys Enlli (2)
Abaty Belmont (2)
Abaty Ynys Bŷr
Kite's Cottage, Sir Gaerfyrddin
Llannerch-wen (3)
Llangasty (10)
Abaty Llantarnam (5)
Nant Gwrtheyrn (5)
Tŷ Nicholaston (4)
Noddfa (2)
Canolfan Beuno Sant (9)
Canolfan y Santes Non (3)
Cwfaint Tŷ Mawr (6)

Mannau eraill:

Cwfaint yr Holl Saint, Rhydychen
Tŷ Brodyr Alnmouth (SSF),
Northumberland (2)
Abaty Alton
Cwfaint yr Ymgnawdoliad,
Rhydychen
Galilea
Pererindod Glendalough
Priordy Hillfield
Holy Cross, Costok
Tŷ Holy Rood, Thirsk
Abaty Lee (4)
Lindisfarne
Canolfan Loretto gyda Maranatha
Mirfield – Cymuned yr Atgyfodiad (2)

Tŷ Cymuned Northumbria
Tŷ Encil y Catholigion Rhufeinig, Essex
Sheldon (3)
Chwiorydd Ffordd yr Iesu, West
Kirby (2)
Chwiorydd Sant Andreas, Lewisham
Walsingham

Llai penodol ...

Tŷ ffrind
Abaty Sistersaidd
Cumbria
Encil yr Esgobaeth
Gwarchod Ci
Fy meudwyfa
Sir Benfro a Dyfnaint
Tiverton

Oes gennych chi gyfarwyddwr ysbrydol neu enaid cytûn?

Dim ond 58% o gyfranogwyr y Diwrnodau Gwrandao a ddywedodd 'Oes'.





Beth fyddai'n eich helpu i ddyfnhau'ch bywyd gweddi?

Gellir grwpio'r atebion fel a ganlyn (ymateb a) oedd yr un mwyaf cyffredin):

- Cyfle i weddio gyda phobl eraill yn fwy
- Encilion mwy rheolaidd i ffwrdd o'r plwyf
- Mwy o amser
- Mwy o hunanddisgyblaeth
- Cael Cyfarwyddwr ysbrydol
- Gwell adnoddau gweddi
- Llai o bwysau i gyflawni pethau

Rhywbeth sy'n gyffredin i bawb a elwir i weinidogaeth Gristnogol yw ein bod yn ceisio cyd-fynd ag eraill wrth iddyn nhw gerdded gyda Duw. Mae'n bwysig ein bod ni'n hunain yn cael y cyfle i elwa ar gwmni o'r fath. Gall terminoleg dynnu'n sylw, ac mae rhai gweinidogion yn anghyfarwydd â beth yw ystyr 'Cyfarwyddwr Ysbrydol' neu'n teimlo bod hynny'n perthyn i draddodiad gwahanol i'w traddodiad eu hunain.

Thema 3: Rôl ac Adolygiad



Mae ymatebion y Diwrnodau Gwrando yn dangos yn blaen fod llawer ohonom yn bell o fod yn glir ynghylch ein cyfrifoldebau yn y weinidogaeth neu beth a ddisgwylir oddi wrthon ni. Mae'n bwysig felly ein bod yn cymryd amser i fynd ati'n gyson i fyfyrto mewn gweddi ar ein galwedigaeth, ac i weithio'n gydweithredol i gefnogi ac annog ein gilydd i barhau i arfer a datblygu'r doniau unigryw y mae Duw wedi'u rhoi i bob un ohonom.

Thema 4: Timau a Chydgymorth

Ydych chi'n perthyn ar hyn o bryd i dîm gydag eraill yn y weinidogaeth drwyddedig?



Os ydych, fydddech chi'n dweud bod eich tîm yn ffynnu?

Ydych chi'n perthyn i grŵp cymorth gyda gweinidogion eraill?

Beth sy'n eich helpu i deimlo fel eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a'ch bod yn cael eich annog yn eich gweinidogaeth?

Sut rydych chi'n cefnogi ac yn annog eich gilydd yn eich tîm gweinidogaeth ar hyn o bryd?

Rhannwch rywbeth sydd wedi'ch annog chi'n bersonol yn eich gweinidogaeth yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



Lleisiau:

Beth sy'n eich helpu i deimlo fel eich bod yn cael eich gwerthfawrogi, a'ch bod ac yn llawn anogaeth yn eich gweinidogaeth?

"Er nad ydw i'n edrych felly, mae arna i angen geiriau o gadarnhad."

"Adborth, cwmnïaeth, bod yn rhan o dîm mawr."

"Bod heb wybod gwir effaith Duw yn gweithio drwyddaf i. Ac yna'n sydyn sylweddoli"

Lleisiau:

Sut rydych chi'n cefnogi ac yn annog eich gilydd yn eich tîm gweinidogaeth ar hyn o bryd?

"Rhoi adborth yn rheolaidd. Helpu'n gilydd i wneud pethau. Gweddio dros ein gilydd."

"Mae gennyn ni gyfarfodydd tîm gweinidogaeth bob mis. Drwy fynd allan i gael brechwast a thrafod materion a phrosiectau rydyn ni'n annog ein gilydd yn ein gweinidogaethau."

"Dydyn ni ddim. Heblaw cyfarfod i amserlennu gwasanaethau ac ychydig o amser i siarad. Rwy'n gwneud apwyntiad i siarad â'm periglor os bydd angen, ond dim byd rheolaidd."

"Dw i ddim yn meddwl ein bod yn dda iawn am hyn – y cyfan dw i'n llwyddo i'w wneud yw ambell neges destun a sylwadau cadarnhaol ar ôl gwasanaeth neu digwyddiad."

"Rydym ni heb gyfarfod ers dros ddau fis a heb addoli gyda'i gilydd ers hyd yn oed yn hirach."

Rhannwch rywbeth sydd wedi'ch annog chi'n bersonol yn eich gweinidogaeth yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

"Cael grantiau gan Ymddiriedolaeth Isla Johnston i deithio ac astudio."

"Y Gynhadledd Daleithiol gyntaf erioed yng Nghymru lle roedd yn bosibl i Anglicaniaid Cymraeg eu hiaith deimlo'n normal a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae angen i hyn barhau yn y dalaith fel ffordd i hybu cenhadaeth i'r gymuned Gymraeg ac i wneud hyn yn yr Esgobaethau hefyd. Mae angen cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a defnyddio a meithrin ymroddiad dysgwyr hefyd."

"Bod yn rhan o grŵp bach yn sefydlu cynulleidfa newydd mewn pentref sydd heb bresenoldeb Anglicanaidd yn addoli yno ers 30 mlynedd."

"Gweld gwraig naw deg oed yn cael adferiad corfforol yn un o'i choesau fel ei bod yn gallu cerdded yn gyfforddus, a bysedd ei llaw dde oedd yn arfer bod yn arthritig yn agor nes ei bod wedi adennill defnydd llawn o'r fraich honno (ymysg pethau eraill). Does dim byd yn amhosibl i Dduw."

"Dysgu dulliau cenhadu newydd oddi wrth Gymdeithas Cenhadu'r Eglwys, yn enwedig dysgu ailwampio fy sgysiau o "rydyn ni'n gwneud" i "Mae Duw yn gwneud"."


"Cododd y cyfle dair blynedd yn ôl i ddechrau'r gwasanaeth addoli wythnosol ar ffurf caffi, i bobl o bob oed. Dros y cyfnod yn dilyn, mae'r gynulleidfa wedi dod yn deulu, wedi tyfu mewn nifer, ac yn cyrraedd pobl nad oedden nhw'n aelodau o eglwys o'r blaen. Mae yna newyn ysbrydol, ac rydyn ni wedi gweld twf ysbrydol sylweddol ac atebion i weddi."

Mae ymatebion y Diwrnodau Gwrandio yn ei gwneud yn glir nad yw Datblygu Gweinidogaethol Parhaus yn ymwneud o reidrwydd â chysiau a hyfforddiant. Yr hyn y mae ei angen ar frys i rai yw clust i wrando a rhai geiriau o anogaeth. Mae'r lleisiau a glywn uchod yn rhoi awgrym i ba mor allweddol y gall y cyfraniad hwn fod.

Mae'n amlwg bod gennym ffordd bell i fynd o ran datblygu timau gweinidogaeth iach. Rhoddodd yr ymatebion i'r cwestiynau uchod ddarlun o weinidogion ynysig sy'n cyfathrebu â'i gilydd yn achlysurol, ac o dimau cenhadol sy'n tyfu'n llewyrchus, gyda'r ail yn eithriad yn hytrach na'r rheol. Fel gweinidogion rhaid inni roi blaenoriaeth i gysylltu â'n gilydd i weddio a chymdeithasu yn ystod yr wythnos. Mewn sefyllfa lle mae teithio'n anodd neu'n anymarferol, yna gall trefnu 'galwad weddio' reolaidd dros y ffôn neu skype fod yn hynod arwyddocaol.

Thema 5: Defnyddio Amser


Faint o oriau rydych chi'n eu treulio ar weinidogaethu bob wythnos?



Lleisiau:

Rhoddodd 36 o bobl a oedd heb fod ar encil y llynedd 'diffyg amser' fel rheswm.


Ydych chi'n cymryd o leiaf un diwrnod yr wythnos i ffwrdd?



Lleisiau:

Dyweddodd un aelod o'r Staff Uwch mewn Esgobaeth "Ydw, a dau weithiau."

Oes gennych chi amser/ydych chi'n dod o hyd i amser i'r teulu ac i gyfeillgarwch cefnogol?



Lleisiau:

Roedd y gweinidogion yn aml yn siarad am heriau "cydbwysu galwadau fy ngweinidogaeth â gwaith a bywyd teuluol. Bywyd y teulu sydd fel arfer yn cael ei wasgu a fy mywyd gweddi sy'n dioddef."

Lleisiau:

Cododd pwnc amser yn aml ar draws y set ddata gyfan:

'Fe hoffwn i gael mwy o ...'

'amser i'w neilltuo i ddarllen ac astudio'

'amser ar gyfer gweddïo drwy wrando ac astudio'

'amser tawel i fyfyrïo'

'ddiwrnodau fel heddiw'

'amserau ar fy mhen fy hun ac amser i encilio'

'amser i fod gyda Christ'

Disgrifiodd y gweinidogion eu pryderon o ran amser:

'diffyg amser i wneud yr hyn sydd ei angen'

'diffyg amser i gwblhau pethau yn barod ar gyfer gwasanaethau dydd Sul'

'cael eich gweithio i'r eithaf a cholli fy adnoddau fy hunan drwy golli amser gweddïo a threulio mwy o amser mewn gweinyddiaeth a chyllid na chyda phobl'

'Rwy'n cyflawni rôl wahanol fel offeiriad ers imi gael fy ordeinio... weithiau mae'r galwadau ar ein hamser yn mynd â ni i ffwrdd o'r alwad a gawson ni gan Dduw.'

Nododd rhai gweinidogion mai rheoli amser oedd eu her fwyaf yn y weinidogaeth:


'gallu gwthio prosiectau drwodd lle mae angen mwy o amser ac ymdrech yn erbyn gofynion di-baid y materion beunyddiol'.

Soniodd llawer o'r lleisiau a ymatebodd i gwestiynau'r Diwrnodau Gwrando am brinder amser. Does neb yn gallu creu mwy o amser, felly mae'n rhaid inni fod yn hyderus yn yr argyhoeddiad bod gennym yr holl amser y mae arnom ei angen i wneud yr hyn y mae Duw wedi gofyn inni ei wneud.


Weithiau gall ymddangos bod yna ddiwylliant cystadleuol ymysg gweinidogion gyda rhestrau o'n prysurdeb dihafal i'r perwyl 'dw i heb gael diwrnod yn rhydd ers tri mis'. Mae'n amlwg nad rhywbeth i'w annog yw hyn, ond rhywbeth y gall pob un ohonom ymrwymo i'w ddileu. Pan ofynnwyd a oedden ni'n cymryd diwrnod yn rhydd bob wythnos, dywedodd chwarter o'r clerigwyr cyflogedig 'Na'. Dim ond un ymatebydd yn y garfan gyfan ddywedodd 'Rwy'n cymryd dau weithiau.' Os caiff y broses gwrandao hon ei hailadrodd, byddem wrth ein bodd yn clywed llawer mwy yn dweud 'Rwy'n cymryd dau ddiwrnod yn rhydd yn gyson bob wythnos ac felly dw i, fy nheulu a fy nghyd-destun eglwysig yn ffynnu!'

Thema 6: Y Gymraeg a Threftadaeth


Beth yw lefel eich rhugledd yn y Gymraeg?



Rhugl	19
Uwch	12
Canolradd	18
Elfennol	57
Dechreuwr pur	55
Heb bennu	7
	168



Beth yw trysorau diwylliant Cymru a sut gall eu defnyddio fel adnoddau yn y weinidogaeth?



Cynigiodd yr ymatebwyr ddigon o ymatebion brwd i'r cwestiwn hwn, gan ymdrin â themâu'r iaith, y celfyddydau (yn enwedig barddoniaeth a cherddoriaeth, draddodiadol a chyfoes), treftadaeth Gristnogol (gan gynnwys y Seintiau, ysbrydolrwydd Celtaidd, manau sanctaidd hynafol a ffyrdd y pererinion). Er bod yna ymwybyddiaeth bod pobl wahanol yn golygu pethau gwahanol wrth siarad am y traddodiad 'Cristnogol Celtaidd', dywedodd un ymatebydd: 'er nad ydyn ni'n gwybod fawr ddim manylion am y ffurf a'r litwrgi gwreiddiol, mae'r brwdfrydedd ynglŷn â'n rhagdybiaeth ni o beth oedd y rheiny yn dangos yr hyn sydd ar bobl ei angen heddiw'. Cyfeiriodd nifer sylweddol o atebion at arwyddocâd lle a thirwedd yn niwylliant Cymru. Disgrifiodd eraill bwyslais ar gymuned a pherthynas gan deimlo bod y rhain yn arbennig o gryf yn y Cymoedd ('mae traddodiad Cymreig y diwylliant cymunedol yn drysor amhrisiadwy').

Cynigiodd rhai o'r gweinidogion amodau – yr angen i gofio mai Duw yn y pen draw sy'n rhoi'r adnoddau ar gyfer ein gweinidogaeth a bod yr Efengyl Gristnogol yno i bob diwylliant. Soniodd rhai am stereoteipiau diwylliannol y maen nhw'n teimlo eu bod yn ddi-fudd ('cennin Pedr a menywod mewn gwisg Gymreig') a galwodd eraill am bwyll wrth ddisgrifio Cymru fel gwlad a chanddi diwylliant Cristnogol penodol ('mae pobl yn credu ein bod ni'n Gristnogol oherwydd y Diwygiad ond erbyn hyn does neb yn byw sy'n ei gofio').

Cafwyd cyfeiriadau achlysurol at enwau neu leoedd penodol oedd yn bwysig ym marn yr ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys ffigurau fel William Williams Pantycelyn, Mary Jones, Thomas Charles a Chymdeithas y Beibl a manau i'r pererinion hynafol fel Tyddewi, Capel y Santes Non, Enlli, Ynys Bŷr a Phriordy Ewenni.

Lleisiau:

Roedd yr awgrymiadau am sut y gallem ddefnyddio'n treftadaeth ddiwylliannol yn y weinidogaeth yn cynnwys y canlynol:

"Mae angen inni ailgysylltu pobl Cymru heddiw â straeon ein gorffennol. Mae angen inni ailddarganfod eu pŵer a'u hysbrydoliaeth yn ein bywyd eglwysig ninnau, a thrwy hynny eu cynnig a'u hailgyflwyno fel ffydd fyw i'r cymunedau modern rydyn ni'n eu gwasanaethu heddiw."

"Rydym yn etifeddion i'r seintiau o'r 1700 o flynyddoedd diwethaf yn y tir hwn. Allwn ni roi'r gorau i'n hobsesiwn gyda'r 150 mlynedd diwethaf os gwelwch yn dda?!"


"Roedd y dramâu dirgel canoloesol yn cael eu perfformio i ddysgu eu ffydd i bobl; beth allen ni ei wneud i harneisio'r brwdfrydedd dros y celfyddydau i ddysgu stori Duw i genhedlaeth heddiw?"

"Gallem agor llwybrau pererinion byr a hir, i hybu ymweliadau â'n eglwysi hynaf gydag esboniadau, ac annog ysgolion drwy gynhyrchu pecynnau hanes i'r athrawon."

"Rydym yn wlad sydd wedi'i chysegru gan Seintiau – cynifer ohonyn nhw. Byddwn wrth fy modd i fod yn rhan o eglwys sy'n mynd ati i gyfeillio'r gwŷr a'r gwragedd sanctaidd hyn – nid fel eneidiau ymadawedig, ond fel presenoldeb byw y gall eu bywydau ein hysbrydoli, ein cysylltu â thraddodiad dwfn, parhaus, ac y gall eu gweddïau ein bendithio ni."

Ceisiadau am Adnoddau Cymraeg

Pan ofynnwyd pa sgiliau ac adnoddau yr oedd arnyn nhw eu hangen er mwyn cysylltu'n well â'u cyd-destun lleol, dywedodd 22 o bobl fod angen iddyn nhw wella'u Cymraeg. Nododd rhai bwysigrwydd Cymraeg litwrgaidd iddyn nhw a soniodd eraill am wella'u gallu i gynnal sgysiau anffurfiol. Hefyd cafwyd ceisiadau am ragor o adnoddau Cymraeg at addoli a dywedodd un ymatebydd 'fy Nghymraeg yw fy mhroblem fwyaf i'.



Lleisiau:

"Hoffwn i ofyn am gyrsiau ar efengylu yn Gymraeg ac yn ddwyieithog sy'n cysylltu â'r Gymru gyfoes."

"Rwy'n ystyried trefnu dosbarthiadau Cymraeg anffurfiol. Y broblem gyda chwrs ffurfiol yw'r nifer fawr o oriau 'penodol' mae'n ei gymryd allan o'r wythnos pan alla i ddim bod ar gael ar gyfer angladdau, etc."

"Un o'r problemau wrth geisio dysgu Cymraeg, heblaw am oedran, oedd diffyg amser am fy mod i'n ceisio mynd i'r afael â gofynion y plwyfi yr un pryd. Doeddwn i ddim yn gwybod am gyrsiau Nant Gwrtheyrn nes fy mod i wedi dechrau'n barod – byddai'n dda rhoi cyfle i newydd-ddyfodiaid o Loegr ddysgu cyn dechrau."


Cafodd Eisteddfod 2018 ym Mae Caerdydd ei chanmol gan lawer am ddathlu'r Gymraeg a chelfyddydau a diwylliant cyfoes yng Nghymru. Ymysg ymatebwyr y Diwrnodau Gwranddo, dim ond 11% o'r gweinidogion trwyddedig ddywedodd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Dywedodd llawer yr hoffent gael cymorth i wella'u Cymraeg.

Roedd y rhan fwyaf o'r clerigwyr cyflogedig sydd wedi dysgu a dod yn rhugl yn yr iaith wedi cwblhau cwrs 'Wlpan' dwys dros gyfnod o dri mis. Mae'n amlwg yn anodd iawn symud ymlaen o gyrsiau yn yr ystafell ddosbarth i ddefnyddio'r iaith bob dydd mewn gwirionedd.


Mae angen i weinidogion sy'n rhugl eu Cymraeg gael eu hannog i drefnu rhagor o addoli a digwyddiadau Cymraeg – gan greu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu trwytho yn yr iaith a magu hyder wrth siarad.

Thema 7: Cyllid

Oes unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn peri pryder ichi?




Ydych chi'n llwyddo i dalu'ch costau byw o ddydd i ddydd?




Mae'n ddiddorol nodi bod yr ymatebion i'r cwestiwn am dalu costau byw o ddydd i ddydd yn debyg iawn yn wir, ni waeth a oedd gan y gweinidog gyflog ai peidio. Ar y llaw arall, y canfyddiad trawiadol yma yw bod y cwestiwn ble y byddan nhw'n byw ar ôl ymddeol yn achosi gofid neu bryder i fwy na thraean o'r gweinidogion cyflogedig.

Thema 8 – Heriau a Phwysau Gwaith


Ydych chi erioed wedi gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r weinidogaeth oherwydd straen neu orweithio?



Oes un neu fwy o'r meysydd canlynol yn creu her neu bwysau yng nghyd-destun eich gweinidogaeth?



Oes unrhyw un neu ragor o'r meysydd a ganlyn yn creu her neu bwysau bywyd personol?



Beth fu'r her fwyaf ichi yn eich gweinidogaeth?

Tueddai'r ymatebion i'r cwestiwn hwn gyfeirio at un o nifer fach o themâu a gododd dro ar ôl tro:

- Gweinidogion lleyg yn teimlo nad oedden nhw'n cael eu derbyn nac yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol
- Gwrthdaro rhwng y disgwyliadau presennol a'r angen / awydd i ddechrau mentrau newydd
- Ymdopi â newid neu amharodrwydd i newid
- Teimlo'n unig a diffyg cefnogaeth ac anogaeth
- Bwlio a gwrthdaro mewn perthnasoedd ar lefel leol
- Rhwystredigaeth â strwythurau hierarchaidd yn yr eglwys
- Cydbwysedd bywyd / gwaith

Lleisiau – Beth fu'r her fwyaf?

"Dysgu ar adegau pa mor unig mae'n gallu teimlo i fod yn offeiriad. Mae rhai o'r pethau pwysicaf dw i wedi gorfod eu gwneud wedi bod ar draul fi fy hun, fy mhriodas a'm teulu."

"Dw i'n dal yn methu dweud yn onest fy mod i'n teimlo fel 'gweinidog' achos, er y byddwn i'n dweud fy mod i'n ymwneud yn llawn â'r weinidogaeth, mae yn gymaint o ddiwylliant o glerigoli yn yr Eglwys yng Nghymru nes bod gweinidogion lleyg yn aml yn teimlo fel eu bod yn drigolion eilradd."

"Gweithio gyda rhagflaenydd roedd ei ddiffyg hyder ei hunan wedi arwain at agwedd amddiffynnol eithafol ac amharodrwydd i dderbyn y cymorth y gallwn i ei gynnig, a hynny ar draul pawb."

"Un eglwys benodol. Dyw hi ddim yn tyfu, ddim yn ymgysylltu â'r gymuned o'i hamgylch, ddim yn dangos unrhyw ddiddordeb mewn symud ymlaen... Dyma beth yw gwallgofrwydd - gwneud yr un peth drosodd a throsodd gan ddisgwyl canlyniadau gwahanol. Maen nhw am weld mwy o bobl yn yr eglwys, maen nhw am i'r eglwys barhau, ond wnân nhw ddim ystyried gwneud dim yn wahanol... Dw i am weld twf, ond mae hynny'n golygu newid a dw i wedi methu cael unrhyw newid o bwys."

"Dw i'n ei chael yn anodd ymdopi â disgwyliadau pobl. Mae'n anodd pan fydd pobl yn beirniadu ei gilydd yn ogystal â minnau. Dw i'n teimlo bod hyn yn ddi-baid bob wythnos yn 'gorfod' meddwl am rywbeth 'arbennig'; bob Sul neu bob angladd neu bob briodas. Mae'n ddiddiwedd."

"Rwy'n cael trafferth â'r diffyg hyder yn yr Efyngyl a welwch chi yn yr Eglwys fel sefydliad a minnau'n rhan ohono. Rwy'n cael fy hun yn cytuno â strategaethau a therminoleg newydd yn y gobaith y bydd y rhain yn ateb y gostyngiad yn y niferoedd."

"Ymdopi â strwythurau hierarchaidd yr Esgobaeth. Delio â rhai mewn awdurdod sy ddim yn defnyddio'r awdurdod hwnnw yn briodol – er enghraifft, methu gwneud penderfyniadau anodd neu mae yna enghreifftiau o fwlio."

"Gwyllo clerigwyr yn cael eu dinistrio drwy gael eu gosod yn y lle anghywir heb gefnogaeth a neb yn gwranddo arny'n nhw o reidrwydd"

"Diffyg cefnogaeth gan yr uwch staff yn yr esgobaeth (sydd yn ddiâu hefyd yn teimlo eu bod dan ormod o bwysau!) ac sy ddim yn deall cymaint y gall un gair o anogaeth ei olygu."

"Strwythurau penderfynu sy'n annelwig... Mae penderfyniadau'n cael eu cymryd o hyd tu ôl i ddrysau caeedig heb eich bod chi yno, a'r hyn gewch chi yw rhywun (archddiacon etc.) yn cario gwybodaeth yn ôl a blaen rhyngoch chi a rhyw 'grŵp' sy'n penderfynu. Pryd cawn ni arweinwyr sy'n gyfrifol am bethau, sy'n ysgwyddo'r baich hwnnw, sy'n cael sgysiau gonest wyneb yn wyneb hyd yn oed os yw'r rheiny'n anodd, ac nad ydyn nhw'n cuddio rhwng prosesau a strwythurau?"

Lleisiau: Beth yw'ch ofnau mwyaf yn y weinidogaeth?

"Fy mhryder mwyaf yw llosgi allan, salwch yn gysylltiedig â straen rydyn ni'n ei weld yn barod a'r effaith mae'n ei chael nid yn unig ar glerigwyr ond ar blwyfi, cydweithwyr a'u teuluoedd."

"Ein bod ni i gyd yn y pen draw yn rhedeg o un eglwys i'r llall bob dydd Sul i weinidogaethu i'r un gynulleidfa sy'n lleihau, ac nad oes dim byd rydyn ni'n ei wneud yn atal cwmp crefydd gyfundrefnol, sydd ar y gweill: efallai fod hynny'n beth da, dwy ddim yn siŵr fy mod i eisiau bod yn dyst iddo!"

"Rhoi gofai terfynol i gynulleidfa sy'n marw ac sy'n methu dianc rhag bod yn gaeth i'w thraddodiadau a'i hadeilad. Addoli pethau a ffyrdd o wneud pethau - yn hytrach nag addoli'r Duw byw."

"Mae cynulleidfaoedd yn lleihau, a'r rhai sy'n aros sy'n pennu sut mae'r eglwys yn cael ei rhedeg."

"Mae'r Esgob wedi gofyn imi arwain Ardal Weinidogaethu newydd, ond dw i ddim yn siŵr iawn beth mae'r rôl yn ei olygu, a beth yn union yw'r broses o newid o'r sefyllfa bresennol i'r un newydd."

"Y pryder sefydliadol sydd fel pe bai'n effeithio ar yr eglwys ar yr adeg hon o newid. Mae'n amlygu'i hun mewn mentrau i geisio annog yr Eglwys i dyfu - maen nhw'n llawn bwriadau da ond teimlaf eu bod nhw'n ychwanegu pwysau ac yn gallu gwneud i'r Eglwys ymddangos yn arwynebol."

"Bod heb y dewrder, yr hyder, neu'r doethineb i fod yn fentrus mewn gweledigaeth wrth wynebu heriau anodd gwleidyddiaeth yr eglwys - rywsut mae wynebu'r pwysau sy'n dod o'r tu mewn i'r eglwys yn llawer mwy anodd na wynebu'r heriau a ddaw o'r tu allan."

"Mae arna i ofn bod yr Eglwys yng Nghymru cyn bo hir yn mynd i ddod i ben. Mae'r llwybr presennol yn peri arswyd. Mae arna i ofn nad ydyn ni'n ddigon cryf na chreadigol i wneud pethau'n wahanol ac i fod yn realistig ynghylch y ffordd ymlaen."

Mae'n boenus ac yn bwysig gwranddo ar y lleisiau sy'n cael eu hadrodd yma a llawer o rai eraill tebyg. Mae gweinidogion mewn cyd-destunau gwahanol iawn ar draws yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud gosodiadau tebyg - mewn gwirionedd, mae nifer cymharol fach o faterion ac mae gennym y cyfle i ddod â hwy gerbron Duw mewn gweddi.

Rydym yn sôn am deimlo'n ynysig ac yn unig yn yr heriau a wynebwn - mae'r data yn yr astudiaeth hon yn awgrymu nad yw gweinidogion yn ymwybodol bod llawer o'n cydweithwyr yn brwydro gyda sefyllfaoedd tebyg.

Mae llawer o'r sefyllfaoedd heriol rydym yn eu disgrifio yn codi o'r realiti bod arwain mewn gweinidogaeth heddiw yn golygu arwain newid. Gan hynny, mae'n hanfodol ein bod ni, fel unigolion ac fel eglwys ehangach, yn gweddio dros ein gilydd ac yn cynnig unrhyw gymorth ymarferol a allwn i'n gilydd.

Thema 9: Doniau a Phrofiad



Beth yw eich prif ddoniau a beth rydych yn teimlo'n angerddol amdano yn eich gweinidogaeth?

Os ydych chi mewn cyflogaeth seciwlar, neu wedi bod mewn cyflogaeth seciwlar, ym mha feysydd y buoch yn gweithio a pha arbenigedd a phrofiad penodol y gallwch eu cynnig yn yr eglwys?

Pa hobiau a diddordebau rydych chi'n eu mwynhau yn eich amser rhydd?

Oes rhywbeth yr hoffech wneud llai ohono er mwyn canolbwyntio ar y rhodd neu ddawn a gawsoch gan Dduw?

Oes rhywbeth yr hoffech wneud mwy ohono er mwyn canolbwyntio ar y rhodd neu ddawn a gawsoch gan Dduw?



Yr ymateb mwyaf cyffredin o bell ffordd i'r cwestiwn beth hoffai gweinidogion wneud llai ohono oedd 'gweinyddiaeth'. Er hynny, rhaid inni fod yn wylidwrus cyn dod i'r casgliad mai'r ateb parod yw darparu cymorth gweinyddol i Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaethu. Ai gweinyddiaeth yw'r broblem wirioneddol yn hyn o beth neu oes rhywbeth arall wrth wraidd poblogrwydd yr ymateb hwn? Pan ofynnwyd beth yr hoffent wneud mwy ohono, soniodd llawer o weinidogion am weithgareddau sy'n anweledig ond yn arwyddocaol iawn – gweddio a myfyrto, astudio, paratoi pregethau a bod yn bresennol gydag eraill. A ddylsem felly, annog ein gilydd i gymryd yr maser sy'n ymwneud â rhain, sy'n aml yn cael ei wasgu, ond yn hynod bwysig, ag sy'n dod a phleser a nerth ag sy'n ein apratoi yn well i'n gwaith ac yn ein cynnal yn ein gweinidogaethau.

Mae'r rhestr hynod helaeth isod yn dangos sut yr ymatebodd gweinidogion lleyg trwyddedig i'r cwestiwn ble maen nhw wedi gweithio o'r blaen a pha arbenigedd a phrofiad y gallan nhw eu cynnig yn yr eglwys. Siawns bod goblygiadau mawr yma ar gyfer cydnabod a chrosawu'r ystod anferth o ddoniau a phrofiad y mae Duw wedi'n bendithio ni ein fel eglwys â nhw:

Cyfrifydda	Cymorth Anabledau (2)	Llywodraeth Leol (2)	Rheoli Prosiectau (2)
Gweinyddu	Cyfraith Cyflogaeth a Rheoleiddio	Rhesymeg	Siarad Cyhoeddus
Gweinyddiaeth	Peirianeg	Rheoli (4)	Cydgysylltu â Disgyblion
Cynghori	Ceffylau	Ymgynghoriaeth Rheoli	Prynu
Dadansoddi	Rheoli Digwyddiadau	Cyfryngydd	Rheoli Ansawdd
Cymorth mewn Profedi-gaeth	Cyllid (4)	Meddygaeth (2)	Manwerthu
Gyrfaoedd	Hylendid Bwyd	Iechyd Meddwl	Post Brenhinol
Arlwyo (3)	Maethu	Gwaith Cymdeithasol Iechyd Meddwl	Diogelu
Rheoli Newid	Grantiau	Bydwreigiaeth	Gwyddoniaeth (3)
Cyfarwyddwr Elusen	Gofal Iechyd	Dysgu Cerddoriaeth	Morwr
Gwaith Elusen	Garddwriaeth	GIG	Uwch-reolaeth
Cyngor ar Bopeth	Lletygarwch	Nyrsio (6)	Anghenion Addysgol Ar-bennig (2)
Cadeirydd Elusen (3)	Adnoddau Dynol (2)	Obstetreg a Gynaecoleg	Dysgu (18)
Cyfathrebu (2)	Diwydiant	Trefnu (3)	Gwaith tîm
Adeiladu	TG (5)	Gofal Lliniarol	Ysgrifennu Technegol
Cwmselydd	Y Gyfraith (3)	Cyflwyniadau	Technoleg
Newid Diwylliant	Llyfrgelloedd	Argraffu	Hyfforddi (2)
Ffermwr Llaeth	Gwrando	Cynhyrchu	Deall Dementia
Dylunio			

Un o ganfyddiadau mwyaf ysbrydoledig y Diwrnodau Gwrando oedd ehangder y profiad a'r doniau a geir ymysg gweinidogion trwyddedig yr Eglwys yng Nghymru heddiw. Mae'r tabl uchod sy'n crynhoi eu sgiliau proffesiynol a'u profiad yn fynegiant pwerus o hyn.

Un Peth y gallwn ni fel gweinidogion ei wneud yw rhoi'r gorau i bryderu am y meysydd hynny lle rydym yn brin o brofiad neu arbenigedd a dechrau dysgu gofyn i bobl eraill am eu doethineb a'u syniadau. Does dim angen i Arweinydd Ardal Weinidogaethu fod yn weinyddwr arbenigol. Y cyfan y mae ei angen yw gwyleidd-dra i ymgynghori â'r rhai sy'n arbenigwyr.

Un Peth y gall Athrofa Padarn Sant ei wneud yw datblygu cronfa ddata o arbenigeddau gweinidogion – drwy ddefnyddio'r doniau a'r profiad y mae Duw wedi'u rhoi inni y gallwn ddod â bendithion i eraill. Efallai na fydd meysydd arbenigol penodol ar gael yng nghyd-destun yr eglwys leol, felly bydd yn werthfawr bod yn ymwybodol o'r rhai mewn manau eraill a allai fod yn barod i gynnig arweiniad a chefnogaeth.

Thema 10: Adnoddau ar gyfer Weinidogaeth

Sut / ble gwnaethoch eich hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y weinidogaeth?

Beth fu o gymorth ichi? Beth allai gael ei wella?

Pa hyfforddiant penodol rydych chi wedi'i wneud ar gyfer eich rôl bresennol?

Beth fu o gymorth ichi? Beth allai gael ei wella?

Pa sgiliau ac adnoddau y mae arnoch eu hangen er mwyn cysylltu'n well â'ch cyd-destun lleol?

Pa hyfforddiant ac adnoddau yr hoffech ofyn amdanynt mewn perthynas â'ch rôl bresennol?

Sut gall yr Eglwys yng Nghymru werthfawrogi a chefnogi gweinidogion digyflog?

Sut gall yr Eglwys yng Nghymru werthfawrogi a chefnogi curaduriaid a gweinidogion lleyg trwyddedig newydd?

Mae'r wybodaeth o'r Diwrnodau Gwrando ar adnoddau ar gyfer gweinidogaeth yn galluogi Athrofa Padarn Sant i roi gwell cefnogaeth i bobl yn eu rolau a'u harbenigeddau gwahanol mewn gweinidogaeth.

Sut gall yr Eglwys yng Nghymru werthfawrogi a chefnogi curaduriaid a gweinidogion lleyg trwyddedig newydd?

Gellir grwpio'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

i. Dewis y Periglor Hyfforddi / Goruchwylydd

Dyma'r mater mwyaf cyffredin y cyfeiriodd yr ymatebwyr ato. Pwysleisiwyd mor bwysig oedd cael y **periglor hyfforddi cywir** i'r curad unigol, a bod y periglor hyfforddi nid yn unig wedi'i hyfforddi ac yn brofiadol mewn **gwrando** gweithredol, **annog** a darparu cymorth, ond hefyd yn **dangos esiampl** i'r curad neu'r LLM. Fel rhan o hyn, cafwyd cyfeiriadau niferus at yr angen am oruchwyliaeth **un i un reolaidd** gyda'r goruchwylydd, a'r angen i roi **adborth adeiladol**.

ii. Cymorth Allanol

Cyfeiriwyd yn aml hefyd at yr angen i weinidogion sydd newydd trwyddedig gael rhywun **y tu allan i'w cyd-destun** i'w cefnogi a'u harwain. P'un yw hyn yn **anogwr, mentor, goruchwylydd bugeiliol neu gyfarwyddwr ysbrydol**, mae cael rhywun allanol y gallan nhw siarad â nhw bob amser, y gallan nhw fod yn onest gyda nhw, sydd ag **amser i wrando** arnyn nhw gyda **'materion lletchwith'** ac sy'n gallu rhoi lle i **fyfyr**, yn hanfodol.

iii. Cynllun galluogi unigol

Teimlai rhai yn gryf y dylai curadiaid gael llai o gyfrifoldeb ac na ddylen nhw gael eu trin fel **'ficeriaid cynorthwyol'**, tra pwysleisiai eraill y dylen nhw gael **eu cynnwys yn llawn** ac y dylai'r ficer **ddirprwy** mwy iddyn nhw. Yn ddelfrydol, gellir creu cynllun **galluogi** unigol **wedi'i deilwra** i bob gweinidog ynglŷn â **gwerthfawrogi** a defnyddio'u doniau a gwneud iddyn nhw deimlo'n **rhan o'r tîm heb eu gorlwytho** â gwaith a chyfrifoldeb. O fewn y thema hon crybwyllwyd yr angen am **gytundebau gwaith** clir i adlewyrchu hyn.

iv. Cyfarfod yn rheolaidd ag eraill

Soniodd curadiaid a gweinidogion lleyg trwyddedig am bwysigrwydd a'r angen am **gyfarfodydd rheolaidd** gydag eraill yn eu rôl. Soniodd rhai bod **cyfeillgarwch** o'r fath yn gymorth allweddol iddyn nhw, a dywedodd eraill fod hyn yn fath o gymorth sydd wedi'i esgeuluso dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dywedwyd bod cael y **grwpiau cymdeithasol/cymorth** hyn rhwng gweinidogion a churadiaid sydd newydd eu trwyddedu mewn plwyfi gwahanol yn allweddol i **fynd i'r afael ag ynysu**.

v. Hyfforddiant

Soniodd ychydig o bobl am yr angen am Addysg Gychwynnol i Weinidogol (IME) wedi'i theilwra, a bod angen yr un faint o adnoddau a chymorth ar gyfer IME 4-7 (hyfforddiant ar ôl trwyddedu) ag ar gyfer IME 1-3 (ffurfiant cychwynnol ar gyfer y weinidogaeth drwyddedig). Gofynnwyd am gyrsiau hyfforddi rheolaidd yn lleol, ynghyd â hyfforddiant i beriglorion hyfforddi / goruchwylwyr a chaniatáu amser i guradiaid/LLMs fynychu hyfforddiant.

vi. Amcanion Clir

Mynegwyd awydd am amcanion wedi eu cytuno, ar gyfer rôl curad / gweinidogion lleyg newydd eu trwyddedu i'r dalaith gyfan, i ddiffinio disgwyliadau eglur a chyffredin ar gyfer y rôl.

vii. Amser Rhydd

Soniodd rhai ymatebwyr na ddylai gweinidogion trwyddedig newydd fod yn rhy brysur gan ei bod yn hanfodol yn y blynyddoedd cyntaf yn y weinidogaeth drwyddedig cael digon o amser i fyfyrto. Soniwyd bod amser rheolaidd i ffwrdd o'r cyd-destun lleol ac amser i 'fod yn llonydd' yn bwysig.

viii. Cymorth Ariannol

Soniwyd hefyd am yr angen am gymorth ariannol mewn perthynas â Datblygu Gweinidogaethol Parhaus ac enciliau.

Cymorth ac Adnoddau i Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaethu/Cenhadu?

Er nad oedd cwestiwn penodol ar y pwnc hwn, mae dadansoddiad o gynnwys ymatebion gan MALs/periglorigion presennol yn amlygu'r materion a'r themâu a ganlyn:

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r Esgobaethau'n awyddus i wella hyfforddiant i Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaethu, ond mae yna ddiffyg dealltwriaeth o hyd ynghylch ystyr y rôl mewn gwirionedd. Mynegir pryder ynghylch yn hyn sy'n cael ei ddisgwyl oddi wrth un person – roedd y sylwadau nodweddiadol yn cynnwys: 'sut gall un unigolyn redeg 14 o eglwysi? Mae'n amhosibl' a 'rhowch un rôl yn unig os gwelwch yn dda!' I Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaethu a Pheriglorigion yn yr astudiaeth hon, y peth gorau am yr hyfforddiant cychwynol a'r hyfforddiant yn y rôl oedd yr amser i drafod a chymdeithasu gyda'u cymheiriaid.

Yn gyffredin â churadiaid, gofynnodd llawer o'r MALs am hyfforddiant neu adnoddau/gwybodaeth benodol ar faterion y mae'n hawdd mynd i'r afael â nhw. I bob un o'r cwestiynau ar adnoddau, roedd 3-4 o bynciau neu faterion a grybwyllwyd fwy nag unwaith. Yr eitem gyntaf ym mhob rhestr a gododd amlaf.

Agweddau mwyaf defnyddiol ar hyfforddiant cychwynol?

- Hyfforddi ochr yn ochr ag eraill, mantais cael cymuned a thrafod gyda phobl o wahanol safbwyntiau a chefnidiroedd
- Profiad ar leoliad
- Tiwtoriaid a goruchwylwyr sy'n fy herio i feddwl yn wahanol
- Hanfodion yr ysgrythur a diwinyddiaeth

Beth allai gael ei wella ynglŷn â hyfforddiant cychwynol?

- Angen iddo fod yn hyblyg ac wedi'i gynllunio i'n paratoi ar gyfer y rôl sy'n realistig ac wedi'u diffinio'n glir.
- Angen i hyfforddiant gydnabod ein sgiliau a'n profiad blaenorol
- Rhagor ar agweddau ymarferol y weinidogaeth ei hun
- Os ydych chi wedi hyfforddi mewn man arall mae'n anodd addasu i ddiwylliant yr Eglwys yng Nghymru

Hyfforddiant Penodol i'r Rôl?

- "Dydw i ddim wedi cael dim' / 'Dwi wedi gorfod gwneud popeth i fyny wrth fynd yn fy mlaen' / 'Dwi wedi gorfod dibynnu ar fy mhrofiad mewn bywyd'
- Roedd hyfforddiant yr Esgobaeth i MALs yn ddefnyddiol

Beth oedd fwyaf defnyddiol am yr hyfforddiant ar gyfer y rôl?

- Trafodaeth gyda chymheiriaid
- Cymorth a chynghor gan y periglorigion hyfforddi
- Help i nodi fy nghryfderau a'm gwendidau

Beth allai gael ei wella ynglŷn â hyfforddiant ar gyfer y rôl?

- Mwy o le i fyfyrion, rhannu arferion da, rhannu straeon a materion gyda MALs eraill
- Hyfforddiant sy'n fwy penodol i'r rôl a'r cyd-destun
- Angen ailystyried amserau hyfforddi
- Angen mentora parhaus

Y sgiliau Cyd-destunol y mae eu hangen?

- Mwy o amser i fod yn bresennol gyda phobl
- Hyfforddiant technoleg ddigidol (Sut mae millennials yn gweithio?!)
- Datblygu asedau cymunedol
- Hyfforddiant mewn arweinyddiaeth
- Help gyda recriwtio e.e. Gweithiwr Ieuencid / Cynorthwydd gweinyddol

Yr Adnoddau y mae eu Hangen ar gyfer y Rôl

- Dealltwriaeth well o rôl MAL
- Help i gysylltu â'm cymuned
- Gwybodaeth am ddulliau gweinyddol
- Hyfforddiant ar reoli amser a dyddiadur
- Hyfforddiant ar reoli gwrthdaro a rheoli newid
- Ysbrydolrwydd a litwrgi
- Caniatâd i fethu

Lleisiau (Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaethu / Cenhadu):

"Does gen i ddim swydd-ddisgrifiad na chymorth ar gyfer fy rôl fel Arweinydd Ardal Weinidogaethu"

"Fel Arweinydd Ardal Weinidogaethu does gen i ddim disgrifiad swydd mewn gwirionedd. Hefyd fe dechreues o'r dechrau'n deg heb unrhyw gymorth na gweinidogion eraill. Byddai'n well pe bai yna dîm craidd yn eu lle yn barod cyn sefydlu Ardal Weinidogaethu."

"Heddiw mae angen inni hyfforddi ar gyfer math gwahanol iawn o weinidogaeth - rhaid i'n patrymau hyfforddi ategu hyn. Mae angen inni weithio yn unol â rolau y bydd pobl yn eu cyflawni yn hytrach na'r ymagwedd 'un arddull sy'n addas i bawb' yn y blynyddoedd diwethaf."

Pan ofynnwyd pa fath o ddysgu ac adnoddau a fyddai'n werthfawr i bobl, efallai nad yw'n syndod, o gofio amrywiaeth anferth y profiad a'r dysgu blaenorol ymhlith y gweinidogion yn yr Eglwys yng Nghymru fod yr ymatebion yn niferus ac amrywiol!

Gall Athrofa Sant Padarn mewn partneriaeth â'r Esgobaethau ddefnyddio'r data a gasglwyd drwy gyfrwng y Diwrnodau Gwranddo i lywio'i rhaglen hyfforddi at y dyfodol.


Thema 11: Eiddo

Ydych chi'n byw mewn ficerdy sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru?

Os ydych yn byw mewn eiddo sy'n perthyn i'r eglwys, ydy hyn yn effeithio (yn gadarnhaol ynteu'n negyddol) ar eich lles? Pa syniadau sydd gennych i sicrhau nad yw adeiladau'r eglwys yn faich ar y gweinidogion ond yn adnodd at y genhadaeth?

Ydych chi'n byw mewn ficerdy sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru?


Dyweddodd cyfanswm o 71/168 o weinidogion eu bod yn byw yn eiddo yr Eglwys yng Nghymru. Roedd y dosbarthiad ymhlith y rolau gweinidogaethu fel a ganlyn (mae'n anarferol i weinidogion lleyg trwyddedig fyw mewn eiddo sy'n perthyn i'r eglwys – mae'r rhestr hon yn cynnwys rhai gweinidogion lleyg trwyddedig yr oedd eu priod yn ordeiniedig)



Yn byw gyda'r teulu	54
Yn byw ar eu pen eu hunain	11
Heb bennu	6
	71

Pwyntiau Cadarnhaol	Pwyntiau Negyddol
Tŷ hyfryd	Ymdopi â'r ardd
Dda I fod yn bresennol yn y gymuned	Anodd I ddianc o'r gwaith
Wedi lleoli i ffwrdd o'r Eglwys	Wedi ei leoli gwrthlaw'r Eglwys
Gwaith atgyweirio yn cael ei gwneud	Gwaith Atgyweirio ddim yn cael ei wneud
Cefnogaeth Bwrdd Persondy (Support of Parsonage Board)	Diffyg cefnogaeth gan y Bwrdd Persondy (Parsonage Board)
Cymorth â biliau	Cost gwresogi
Lle penodol i astudio ac ystafell cyfarfod benodol	Ystafell Astudio yn rhy oer i weithio ynddo

Os ydych yn byw mewn eiddo sy'n perthyn i'r eglwys, ydy hyn yn effeithio ar eich lles?



I'r rhan fwyaf o weinidogion, mae'n amlwg bod byw yn eiddo'r eglwys yn creu effaith gadarnhaol – dim ond 8% sy'n disgrifio'r effaith gyffredinol fel un negyddol. Mae'r tabl yn dangos y gall nodweddion y mae un gweinidog yn eu gweld fel anfantais gael eu gweld fel mantais i weinidogion eraill, ac ar gyfer pob anhawster a nodwyd y duedd yw bod un arall cyfatebol wedi'i ddatrys! Soniodd nifer o weinidogion fod pethau wedi bod yn anodd iddyn nhw mewn tŷ / esgobaeth flaenorol, ond eu bod yn llawer gwell bellach, a'u bod yn ddiolchgar am waith caled eu Bwrdd Persondai. Unwaith eto, mae pryderon ynghylch tai ar ôl ymddeol yn cael eu mynegi gan nifer o ymatebwyr (cf Thema 7: Cyllid)

Lleisiau (cadarnhaol):

"Rwy'n dwli ar y ficerdy, a'r lle a'r llonydd sydd ar gael yno."

"Ydy, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Mae'n hyfryd gwybod fy mod yn gallu symud rhwng ardaloedd yn hawdd heb orfod poeni am brynu neu werthu tŷ, ac y bydd y tŷ'n cael ei gynnal yn dda."

"Tŷ hyfryd, lle hyfryd, y Bwrdd Persondai'n wych"

"Rydym ni'n byw mewn tŷ prydferth ac yn hynod ddiolchgar am gael stiwardiaeth drosto."

"Bendant - peidiwch â newid hyn, neu fydd pobl byth yn symud a bydd mwy a mwy o offeiriaid yn byw y tu allan i'w cymunedau, sy ddim yn beth da."

Lleisiau (negyddol):

"Ceisio ymdopi â choed a gardd fawr yn y blaen a'r cefn."

"Mae'n gas gen i fyw yn nhŷ rhywun arall! Mae fy nhŷ i'n hyfryd ac rydym ni'n sefydlog yno, ond mae'n dibynnu ar fy ngwaith i."

"Mae'n creu straen y bydd rhaid imi ddechrau dringo ar yr ysgol cartrefi yn 65 oed a rhagor o bosib."

"Dwi'n wir werthfawrogi bod gen i dŷ clwm i fyw ynddo ond mae'r lleithder a'r oerfel, a'r diffyg cymorth ar gyfer problemau yn gallu creu effaith arna i a'r teulu."

"Mae'n ei gwneud yn anodd iawn 'dianc' o'r gwaith ac o rai o'r pwysau cyson mewn gweinidogaeth."

"Mae yna rywbeth ynglŷn â bod yn berchennog ar eich "cartref" eich hun y byddwn i'n dweud ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'ch lles personol chi a'ch teulu."

"Rydym ni'n derbyn gofal da yn ein hesgobaeth ni, ond yng nghefn eich meddwl mae'r ffaith nad chi sydd biau fo. Er eich bod yn gwybod hyn wrth ichi ddechrau yn y weinidogaeth, dros amser mae'n dod yn fwy o bryder."

Pa syniadau sydd gennych i sicrhau nad yw adeiladau'r eglwys yn faich ar y gweinidogion ond yn adnodd at y genhadaeth?

Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd y dylid trawsnewid adeiladau eglwysig yn ganolfannau amlbwrpas i'r gymuned leol. Ynghyd â phoblogrwydd yr awgrym hwn, roedd yna ymwybyddiaeth y bydd mentrau o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad mawr o ran amser ac ymdrech, cyllid ac arbenigedd.

Pwysleisiodd llawer fod angen cymorth o'r tu allan i gyd-destun yr eglwys leol, rheoli portffolio o adeiladau a rhesymoli. Mae'n amlwg bod yr adnoddau presennol ar gyfer adeiladau yn amrywio o'r naill esgobaeth i'r llall, ond mae'n ymddangos nad oedd llawer o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod buddsoddi sylweddol ac arloesi o'r math a gynigiwyd eisoes yn digwydd ar lefel y dalaith a'r esgobaethau.

Roedd eraill yn galw am ddewrder i gau adeiladau ac ailfeddwl ein hymagwedd at genhadu.

Gweler y tudalen nesaf am enghreifftiau o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Gall rhannu straeon am sut mae eiddo'n caele i ddefnyddio'n effeithiol mewn cenhadaeth fod yn ffordd i eglwysi lleol elwa o'r arbenigedd a'r gwersi sy'n bodoli.

Lleisiau - Pa syniadau sydd gennych i sicrhau nad yw adeiladau'r eglwys yn faich ar y gweinidogion ond yn adnodd at y genhadaeth?

Hybiau Cymunedol ...

"Tynnu'r seddau. Mae seddau gosod yn rhewi'r adeilad i gael ei ddefnyddio mewn un ffordd benodol ac ar gyfer gweithgareddau penodol yn unig. Ran amlaf maen nhw'n fodern (e.e. 1700 ymlaen)."

"Maen heglwys ni wedi'i hailwampio ac mae'n hardd. Ac yn gynnes gyda gwres dan y llawr. Ac mae cegin, ystafell gyfarfod, toiledau. Mae acwsteg anhygoel ar gyfer cerddoriaeth gorawl ac offerynnol. Mae'r lle yn amlbwrpas gyda chadeiriau symudol i ganiatáu ar gyfer cynadleddau, gwaith ieuenctid, marchnad Nadolig ac amryw o ddiwyddiadau eraill."

"Mae noson o fawl Celtaidd ar ôl siocled poeth fel pe bai'n taro deuddeg yn y gaeaf mewn adeilad hynafol ac yn dod â'r gymuned i mewn!"

"Mae hyn yn dibynnu ar y cyd-destun. Bydd lle fel Llanilltud Fawr bob amser yn arwyddocaol y genedlaethol, a bydd bob amser yn cael cefnogaeth dda yn lleol ac yn genedlaethol."

Adnodd Canolog ...

"Gadewch i bob eglwys ddod dan ofal cyflawn y Corff Cynrychiolwyr. Fel mai'r Corff Cynrychiolwyr sy'n gwbl gyfrifol am waith cynnal a chadw neu reoli a chael gwared ar adeiladau. Cefnogwch hyn yn ariannol drwy ardoll ar Gyfran y Plwyf... bron fel ardreth adeiladau. Rhyddhewch y clerigwyr a'r cynulleidfaoedd lleol i'r genhadaeth yn hytrach na'u gwneud yn geidwaid adeiladau hynafol."

"Gwell cymorth canolog ar adeiladau a materion rheoli eiddo gan bobl sydd ag arbenigedd yn y maes. Mae penodiad diweddar swyddog esgobaethol ar gyfer hyn a sefydlu grŵp i ddatblygu'r rôl hon yn gam cadarnhaol iawn yn y cyfeiriad cywir."

"Diolch i chi am symleiddio'r broses o wneud cais am drwydded – syniad da! Dirprwywch waith trosolygu adeiladau'r eglwys i dîm esgobaethol canolog sy'n trefnu ac yn ymateb i'r Arolygiadau pum-mlwyddol. Hefyd rhowch gymorth o ddifrif i'r rheini sy'n gwneud ceisiadau am grant."

"Rheoli portffolio o adeiladau - swyddog adeiladau i bob ardal weinidogaethu yn helpu i ddefnyddio'r adeiladau ar gyfer cenhadu, gan weld adeiladau fel adnodd ar gyfer cenhadu ond nid fel realiti cyfan yr Eglwys."

"Rwy'n meddwl bod angen i'r esgobaeth fuddsoddi mewn syrfewyr/penseiri medrus iawn a llawn dychymyg sydd â digon o ffydd a medrau ymarferol ac sy'n gallu meddwl yn ochrol am ein hadeiladau a chyfleu ymdeimlad o gyffro eto i'r bobl leol am werth y lle sanctaidd yn eu hadeiladau penodol, yn hytrach na 'sut maen nhw ac i beth maen nhw'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd'."

Cau dros dro a Chenhadu ...

"Caewch nhw! Buddsoddwch mewn mannau defnyddiadwy, hyblyg, amlbwrpas, sydd yn y lle iawn. Stopiwch fod yn rheolwyr adeiladau hanesyddol."

"Gwnewch hi'n haws atal adeiladau eglwysig sydd â chynulleidfaoedd pitw dros dro hyd nes bod modd gweld diben clir a chenhadol ar eu cyfer."

"Dechreuwch fod yn onest ynglŷn â gwerth adeiladau eglwysig ar gyfer gwir genhadaeth yr eglwys. Stopiwch wneud esgusodion. Byddwch yn realistig ynghylch faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar yr adeilad o'i gymharu â'r amser yn 'mynd allan i wneud disgyblion' ac ewch ati'n briodol o ganlyniad i hynny!"

Thema 12: Adlewyrchu ar waith Athrofa Padarn Sant

Doedd dim cwestiwn penodol yn y Diwrnodau Gwrandu a wahoddodd y gweinidogion i rannu eu myfyrdodau ar waith Athrofa Padarn Sant, ond fe welsom ni fod yna gyfeiriadau'n aml at waith yr Athrofa yng nghyd-destun eu hymatebion i amryw o gwestiynau. Rydym yn cynnwys rhai o'r lleisiau yma.

Mae newid ac arloesi bob amser yn her a rhaid cael ymrwymiad cyson i fentro i roi cynnig ar bethau newydd, myfyrio arnyn nhw, dal gafael ar yr hyn sy'n gweithio ac ailystyried yr hyn nad yw'n gweithio. Mae hyn yn ymrwymiad parhaus gyda'r Athrofa – ac mae angen lefel uchel o ymddiriedaeth ac ymrwymiad. Mae'n amhosibl gwarantu y bydd pethau yn 'hollol gywir y tro cyntaf' felly mae'n hanfodol bod pawb sy'n weinidogion yn yr Eglwys yng Nghymru yn meddwl yn nhermau 'ein Hathrofa ni' – gan gynnig adborth adeiladol ac anogaeth ar hyd y ffordd fel bod yr hyn a gynigir gystal ag y gall fod.

Lleisiau (syniadau ynglŷn ag Athrofa Padarn Sant):

"Daliwch ati â'r gwaith da yn datblygu Athrofa Padarn Sant ac wrth ddarparu hyfforddiant o safon i weinidogion lleeg."

"Mae'n ymddangos bod yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud gwaith arloesol drwy Athrofa Padarn Sant."

"Mae Athrofa Padarn Sant yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr o ran cymorth ac anogaeth. Ar ôl hyfforddi mewn fformat gwahanol saith mlynedd yn ôl, rwy'n gwerthfawrogi sut mae'r Athrofa yn ein hannog, ein cynghori a'n harwain."

"Credaf fod pethau wedi newid oherwydd y ffordd y mae'r Athrofa wedi'i sefydlu ac yn cael ei rhedeg. Mae'n wirioneddol allan yno yn brwydro ar lawr gwlad, sef rhywbeth rydw i wedi ymrwymo iddo. Ni allaf ganmol digon ar eu hymrwymiad, eu hagwedd a'u hanogaeth. Rwyf wedi bod yn Gristion gydol fy mywyd ond hwn yw'r tro cyntaf imi deimlo bod y gymuned ehangach yn cael ei gweld fel darpar aelodau o'n cymuned Gristnogol."

"Rhywbeth sydd wedi fy annog i'n bersonol? Gwrandu ar glerigwyr mwy profiadol yn rhannu'r hyn y maen nhw wedi gweld Duw yn ei wneud dros y blynyddoedd. Nifer y bobl sy'n hyfforddi ar gyfer amrywiaeth o weinidogaethau drwy Athrofa Padarn Sant."

"Daliwch ati i'n cysylltu ni â mentrau Athrofa Padarn Sant. Roeddwn i'n gwerthfawrogi cael rhestr weddi'o'r flwyddyn gan yr Athrofa. Hefyd y cyfle i gymryd rhan yn y Diwrnod Gwrandu."

"Da iawn Athrofa Padarn Sant am helpu i adfywio pethau."

Lleisiau (syniadau ynglŷn â'r Diwrnodau Gwrando):

"Mae yna lawer o broblemau a heriau sy'n ein hwynebu, ond rwy'n dal i gredu mai dyma'r lle iawn i mi. Rwy'n gweddio y gallwch ein helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag tyfu."

"Diolch ichi am ofyn fy marn. Diolch i chi am y Diwrnod Gwrando hwn. Cha i ddim amser arall allan cyn y Grawys, a fyddwch chi ddim yn gwybod mor amhrisiadwy mae hyn wedi bod."

"Mae hyn wedi bod yn ddarn o ymchwil sydd wedi'i saernio'n wych ac nad yw wedi teimlo fel ticio blychau fel y bydd rhai ond mae wedi caniatáu ar gyfer gwaith pwysu a mesur dilys a gwaith dadansoddi manwl, diolch."

"Mae sinigiaeth yn endemig yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n cŵl bod yn sinigaidd. Bydd arweinwyr sy'n ymrwymo i newid y diwylliant hwnnw yn gweddnewid yr Eglwys."

"Mae gan yr Eglwys yng Nghymru rôl hanesyddol i rannu cariad Crist gyda phobl Duw yma. Gan ddilyn Dewi Sant a'r gweddill, mae gennyn ni rywbeth rhyfeddol i'w gynnig, sy'n gallu newid ein byd, ond inni adael iddo."

Thema 13: Diwylliant

Roedd diwylliant yn un thema a oedd yn amlwg drwy'r atebion i gyd, beth bynnag y rôl neu'r esgobaeth. Yn aml, cyfeiriai'r gweinidogion nid yn unig at newidiadau ymarferol yr oedd eu hangen er mwyn caniatáu ffyniant, ond hefyd at newid dyfnach mewn diwylliant drwy'r eglwys gyfan - o agweddau'r plwyfolion at newid, i elfen gystadleuol rhwng esgobaethau, ac ysbryd negyddol ymysg gweinidogion.

'Culture eats strategy for breakfast' – dyma ddyfyniad a briodolir i'r ymgynghorydd rheoli a'r addysgwr Peter Drucker. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi amlygu rhai o'r nifer fawr o ddatblygiadau cyffrous sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd ar draws yr Esgobaethau, yn ogystal â rhai agweddau allweddol ar Ddatblygu Gweinidogaethol Parhaus y mae angen mynd i'r afael â nhw. Ond er gwaethaf camau mentrus mewn strategaeth ac wrth fynd i'r afael â materion ymarferol hirsefydlog, os yw'r diwylliant sy'n treiddio'r eglwys yn un negyddol, gystadleuol neu anobeithiol, go brin y bydd yr un o'r mesurau hyn yn creu effaith barhaol.

"Drych o'r byd yn unig ydyn ni. Mae pob tuedd sy'n bresennol yn y byd allanol i'w chael hefyd ym myd ein corff. Pe gallen ni newid ein hunain, byddai tueddiadau'r byd hefyd yn newid. Fel y bydd dyn yn newid ei natur ei hun, felly y bydd agwedd y byd tuag ato yn newid. Dyma'r dirgelwch duwiol eithaf. A pheth gwych ydyw a ffynhonnell ein hapusrwydd. Does dim rhaid inni aros i weld beth wnaiff pobl eraill."

Mahatma Gandhi

5. Crynodeb

Beth gellir ei wneud i helpu gweinidogion i ffynnu?

Themâu

- i. **Materion Strwythurol.** Siaradodd y gweinidogion am yr haenau yn y broses benderfynu sy'n gallu eu hatal rhag ffynnu, yn ogystal â'r angen am fwy o gyfranogiad gan leygwyr ac ieuencid mewn strwythurau llywodraethu. Cyfeiriwyd hefyd at adeiladau, cyfathrebu a hyfforddiant, gyda phryderon am gyfathrebu yn amrywio o redeg ardaloedd gweinidogaethu yn ymarferol i fater syml mynegi gwerthfawrogiad a chefnogaeth. Mynegwyd yr angen am hyfforddiant mewn meysydd fel y cyfryngau cymdeithasol a rheoli.
- ii. **Cenhadu ac Estyn Allan.** Pwysleisiodd yr ymatebion fod datblygiad gweinidogion yn ymwneud â'u cysylltiadau â'r gymuned leol a'u hymwneud mewn cenhadaeth. Er mwyn ffynnu, nododd saith o'r cyfranogwyr fod angen inni fod yn feiddgar wrth bregethu'r efengyl yn ein heglwysi ac yn y manau lle rydyn ni'n byw. Cafwyd galwadau am ddatblygu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol, ac am fwy o hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar genhadaeth.
- iii. **Cefnogi a Galluogi.** Mae angen i'r Eglwys yng Nghymru alluogi a pharatoi gweinidogion lleig - mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ac adnoddau ond hefyd eu 'gollwng' a dirprwyo pethau iddyn nhw. Crybwyllwyd yr ymadrodd 'amser wedi'i warchod' ambell waith - mewn perthynas â diwrnodau rhydd yn wythnosol a galwad i wneud enciliau rheolaidd ac amser i ffwrdd yn orfodol. Cafwyd cynigion i 'ffynnu' dau ddiwrnod i ffwrdd bob wythnos ac i fonitro oriau. Soniodd nifer o ymatebion am hybu syniadau mwy creadigol a meddwl 'y tu hwnt i'r boc'. Rhaid i ddoniau a phrofiad blaenorol gael eu cydnabod a'u rhyddhau. Cafwyd ceisiadau am ddisgrifiadau swydd fwy clir a chytundebau gweithio realistig, ond hefyd ymadroddion fel 'ein rhyddhau ni' ac 'ymddiried ynom ni' a allai awgrymu mwy o her ddiwylliannol.

6. Casgliadau

Gweledigaeth prosiect Tyfu yw cyfrannu at ffyniant pob gweinidog trwyddedig yn yr Eglwys yng Nghymru.

“Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a’i gael yn ei holl gyflawnder.”

Ioan 10.10

Mae casglu data o’r math a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn creu cyfrifoldeb sylweddol - i anrhydeddu, gwerthfawrogi a gwneud defnydd da o’r hyn sydd wedi’i rannu.

Ein gweddi trwy gydol prosiect Diwrnodau Gwranddo, yr ydyn ni wedi’i alw’n ‘Tyfu’ yw y gallem oedi yn ein bwrlwm a’n prysurdeb a bod yn bresennol yng Nghrist, a chyflwyno’n hunain i’n gilydd fel ei gorff Ef, yr eglwys. Yn y realiti hwn mae gennym y cyfan y mae arnom ei angen – boed inni i gyd garu’n gilydd fel y mae Crist yn ein caru ni.

Yn awr, dyma’r hyn a ddywed yr ARGLWYDD
a’th greodd, Jacob, ac a’th luniodd, Israel:
“Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di;
galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyt.
Pan fyddi’n mynd trwy’r dyfroedd, byddaf gyda thi;
a thrwy’r afonydd, ni rutherant drosot.
Pan fyddi’n rhodio trwy’r tân, ni’th ddeifir,
a thrwy’r fflamau, ni losgant di.
Oherwydd myfi, yr ARGLWYDD dy Dduw,
Sanct Israel, yw dy Waredydd.

Eseia 43.1-3



ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

